

## Blodyn Llefrith
*Cardamine Pratensis*

Mae'r blodau'n fach ac yn cynnwys pedwar o betalau pinc neu borffor golau. Mae'n blanhigyn bwyd pwysig i lindys Glöyn Byw y Gwyn Blaen Oren.




## Meillionen Wen
*Trifolium repens*

Mae’r blodau’n siâp pêl ar goesyn hir, a’r bêl wedi'i gwneud o flodau gwyn unigol bach iawn, ac weithiau blodau pinc golau iawn. Mae ganddyn nhw dair deilen gron gyda band gwelw.




## Clust-y-llygoden Gulddail
*Cerastium fontanum*

Mae'r blodau'n fach iawn, yn wyn, ac mae ganddyn nhw bump o betalau. Mae'r coesynnau'n cario dail bach blewog mewn parau, sy'n rhoi'r enw cyffredin i'r planhigyn, sef Clust-y-llygoden.




## Blodyn Menyn Ymlusgol
*Ranunculus repens*

Mae ganddo flodau melyn a dail blewog wedi'u rhannu'n dair rhan. Mae rhedwyr gwreiddio hir yn ei helpu i ledaenu ar draws ardaloedd llaith o laswellt, yn wahanol i fathau eraill o Flodau Menyn.




## Llygad y Dydd
*Bellis perennis*

Mae gan bob blodyn betalau gwyn, bach, tenau ac weithiau pinc o amgylch canol melyn llachar. Mae ganddo goesyn sy'n tyfu o grŵp o ddail crwn, gwyrdd tywyll.



## Dant y Llew
*Taraxacum officinale*

Mae'r blodyn melyn llachar yma’n tyfu ar goesyn unigol gyda dail mawr, gwyrdd, danheddog. Os edrychwch chi’n ofalus fe welwch chi flodau bach iawn o fewn prif ben y blodyn.



# MAI DI DOR

Plantlife

Gall gardd iach gyda rhywfaint o laswellt tal a blodau gwyllt brodorol fod o fudd i fywyd gwyllt, helpu i fynd i’r afael â llygredd a hyd yn oed cloi carbon o dan y ddaear.

Mae gadael i ddarnau o ardaloedd glaswelltog dyfu’n dalach yr haf yma’n gyfle i flodau brodorol flodeuo ar gyfer gwenyn a glöynnod byw ac yn darparu lloches i famaliaid bach.

Lliwiwch blanhigion blodeuo’r gwanwyn a’u ticio wrth eu gweld yn eich gardd neu eich gofod gwyrdd lleol.

Faint fyddwch chi'n eu gweld? Rhowch wybod i ni ar gyfryngau cymdeithasol, defnyddiwch #MaiDiDor a thagio @plantlife.loveplants

## Rhowch Nerth i’r Blodau Hynod

Ymunwch â mudiad #MaiDiDor yn **plantlife.org.uk/nomowmay**